"A"

# CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun 13eg Hydref, 2025**, yng Nghanolfan Bryncroes, o 7.30 p.m. hyd 8.30 p.m.

Presennol: Y Cynghorydd Gwenan Griffiths (Cadeiryddes)
Y Cynghorydd Elin Hughes (Is-Gadeiryddes)
Y Cynghorwyr Carys H. Evans, Glyn Roberts, Michael Strain, Efan Thomas, Carys E. Williams, Glenys Williams, Iwan J. Williams, Siôn Williams
Y Cynghorydd Gareth Williams (Cynghorydd Pen Draw Llŷn ar Gyngor Gwynedd)

Ymddiheuriad: Y Cynghorydd Dylan Parry Jones

## 56. CYHOEDDIADAU'R GADEIRYDDES

**Croesawodd** y Cadeiryddes yr aelodau i'r cyfarfod. Dymunodd yn dda i Robin Williams, priod Y Cynghorydd Glenys Williams, ar wellhad llwyr a buan iddo yn dilyn ei lawdriniaeth ddiwedar; Mari Williams, efaill Y Cynghorydd Siôn Williams, am iddi gael nerth i wynebu ei thriniaeth yn ystod yr wythnosau nesaf ac yn olaf Elin Mair, merch Y Cynghrydd Carys Williams, am ennill Ysgoloriaeth sy'n cael ei dyfranu'n flynyddol i gefnogi myfyrwyr sy'n byw yng Ngwynedd ac yn dewis astudio 100% drwy gyfrwng y Gymraeg.

## 57. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad.

## 58. CADARNHAU COFNODION 8fed MEDI, 2025

**Cyflwynwyd,** cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y cyfarfod uchod.

(Cynigiwyd gan Y Cynghorydd Glenys Williams ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Carys H. Evans gyda phawb yn cytuno).

**Materion yn codi o'r cofnodion:**

**(a) Eitem 50 – cymal (a)(1) – Goryrru yn Sarn Mellteyrn**

**Adroddodd** Y Cynghorydd Gareth Williams, iddo gael ar ddeall gan Y Cwmnstabl Einir Owen ei bod bellach wedi newid swydd ac fod Cwnstabl arall wedi ei b(ph)enodi dros ardal Pen Llŷn ers ychydig o amser. Nododd Y Cynghorydd Gareth Williams, Cynghorydd Pen Draw Llŷn ar Gyngor Gwynedd, ei fod yn pwyso ar GanBwyll er canfod pryd maent yn bwriadu presenoli eu hunain ym mhentref Sarn Mellteyrn. Nodwyd y sylwad.

**Penderfynwyd** gofyn i'r aelod newydd o'r Heddlu ddod i gyfarfod y Cyngor nesaf os yn bosibl.

**Yr un modd penderfynwyd** gwahodd Mabon ap Gwynfor MS i gyfarfod o'r Cyngor ddechrau'r flwyddyn i drafod materion yn ymwneud â'r gymuned.

(2) ***Eitem 50 – cymal (2) Diffibrilwyr***

Yn dilyn cyfarfod yn Neuadd y Pentref Abersoch **adroddodd** Y Cynghorydd Carys Evans, am y galw i fwy o Gynghorau Cymuned gymryd gofal o'r diffibrilwyr gan fod y Gwasanaeth Ambiwlans wedi rhoi'r gorau i gyflenwi batris a phadiau iddynt. Pwysleisiwyd y pwysigrwydd o brynu batris a phadiau o safon ac awgrymwyd fod hawl yn cael ei roddi gan y Cynghorau i'w Clarc wario hyd at £100 i brynu batris/padiau newydd rhwng cyfarfodydd, pe cyfyd yr angen i ddefnyddio diffibrilwr rhwng dau gyfarfod. Byddai angen cofrestru pob diffibrilwr a'i Ofalwr ar 'The Circuit' (www.thecircuit.uk) sydd wedi'i gysylltu â'r Gwasanaeth Ambiwlans. Hefyd bydd angen gwirio fod popeth yn

gweithio'n iawn yn amlach na'r tri mis a argymhellir – busasi bob bythefnos yn well. Noder fod Noel Jones yn profi y diffibrilwyr ym Motwnnog a Mynytho a diolchwyd iddo am wneud hynny. Nododd Y Cynghorydd Carys Evans hefyd fod swm o arian eisoes wedi ei gasglu gan Calonnau Botwnnog ag arian wedi ei gasglu yn y gymuned. Byddai modd trosglwyddo'r arian yma i'r Cyngor os byddai'r Cyngor yn cymryd cyfrifoldeb o archebu batris/padiau a chymryd gofal ohonynt.

Yn dilyn trafodaeth, **penderfynodd** y Cyngor gymryd y cyfrifoldeb a hawl i'r Clarc wario hyd ar £100 i brynu'r batris/padiau rhwng cyfarfodydd pe cyfyd yr angen. Hefyd y pwyntiau cyswllt fyddai'r Clarc a Chadeirydd y flwyddyn.

***(3) Eitem 50 – cymal (b) Lloches bws ym Motwnnog***

**Adroddodd** Y Cynghorydd Gareth Williams, Cynghorydd Pen Draw Llŷn ar Gyngor Gwynedd, ei fod mewn cysylltiad â'r Feddygfa ynglyn â chael symud ymlaen gyda'r gwaith o osod y lloches. Deallwyd nad oedd y Partneriaid yn hapus gydag un frawddeg yn y ddogfen gyfreithiol ac 'roedd y Cynghorydd Michael Strain wedi anfon llythyr ar ran y Cyngor i egluro'r sefyllfa. 'Roedd addewid bellach wedi ei wneud y byddai'r mater yma yn cael ei setlo mor fuan a bo modd, ond darganfyddir fod oedi hirach, yna fod aelodaeth o'r Cyngor i gyfarfod â'r Meddygon/Swyddogion y Feddygfa i geisio datrys unrhyw broblem.

## 59. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ni dderbyniwyd unrhyw gais.

## 60. POLISI PRYDERON A CHWYNION 2025 A PHRESENOLDEB AELODAU – RHEOL 6 MIS

**Cyflwynwyd** y dogfennau a ganlyn gan Un Llais Cymru:

a) Polisi Pryderon a Chwynion 2025

b) Presenoldeb gan aelodau – y rheol 6 mis

**Penderfynwyd** derbyn y ddwy ddogfen a bydd copi i'w gweld ar wefan y Cyngor.

(Cynigiwyd gan Y Cynghorydd Michael Strain ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Carys H. Evans gyda phawb yn cefnogi).

## 61. RHWYDWAITH CYNGHORAU CYMUNED

**Cyflwynwyd** e-bost gan Alys Lloyd Jones, Swyddog Cefnogi Cymunedau Cynghorau Gwynedd – er gwybodaeth. Bydd copi o'r e-bost ar gael i rhywun gael golwg arno.

**Penderfynwyd** nodi'r uchod.

## 62. FANDALIAETH

**Tynnwyd** sylw fod difrod sylweddol wedi digwydd i Ffynnon Mair ym Mryncroes ddiwedd mis Medi ac hefyd un neu ddau leoliad arall. Gan fod y Ffynnon yn un hanesyddol tynnwyd sylw fod yn rhaid gwneud ymholiadau â CADW ynglyn a'i thrwsio gan na ellir canfod unrhyw gofnod yn nodi pwy yw'r perchennog.

Yn ystod yr un penwythnos bu i'r pot blodau ym Mhedair Croeslon, Bryncroes gael ei daflu i'r briffordd, a'r pot halen ar Allt Coch Moel.

Gofynnodd Y Cynghorydd Dylan Parry Jones am i'r Cyngor ystyried symud y pot blodau o'r Groesffordd i lawr ar yr allt ger yr arwydd Sarn Mellteyrn. Teimlwyd nad oedd angen ei symud gan, efallai, y byddai ei symud ar yr allt yn creu mwy o broblem.

**Penderfynwyd**

(a) Gwneud ymholiadau ynglyn a'r Ffynnon gyda CADW.

(b) Gofyn am bris trwsio i Mr. Dilwyn Williams, Parc Bodfadrig, Sarn.

(c) Gofyn i'r Cynghorydd Glyn Roberts osod 3/4 darn o haearn i'r ddaear yn y pot blodau ar Groesffordd Pedair Croeslon.

(ch) Fod y pot blodau i'w adael ym Mhedair Croeslon am y tro ond os bydd trafferthion fod y mater i'w ail ystyried.

63. **Mater ffyrdd – penderfynwyd** tynnu sylw'r Adran Priffyrdd at y twll dwfn sydd wedi datblygu ger Talcen Eiddew, Bryn Mawr.

64. **AWDURDOD I DALU**
Nid oedd unrhyw daliad yn ddyledus.